Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Heddlu Police DYFED-POWYS

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd

# 2022/23

Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau** ... 3

**Egwyddorion Llywodraethu Da** ... 3

**1. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.** ... 4

**2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid** ... 7

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.** 8

**4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig** ... 10

**5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid** ... 17

**6. Rheoli Risgiau a Pherfformiad trwy Drefniadau Rheoli Mewnol Cadarn a Rheolaeth gref dros Arian Cyhoeddus** ... 18

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol** ... 21

**8. Adolygu a Gwerthuso Trefniadau Llywodraethu** ... 23

**9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad** ... 26

**Barn** ... 29

**Casgliad** ... 29

**Cyflwyniad a Chwmpas Cyfrifoldebau**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am sicrhau bod eu busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau; y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus, y caiff ei ddiogelu a'i ddefnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus. Mae ganddynt ddyletswydd hefyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff eu swyddogaethau eu cyflawni.

Wrth gyflawni eu cyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu eu materion a hwyluso'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau y caiff system gadarn ei chynnal ar gyfer trefniadau rheoli mewnol gydol y flwyddyn, a bod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar *Gyflawni Arferion Llywodraethu Da: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.* Mae hefyd yn bodloni gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd), mewn perthynas â'r datganiad rheolaeth fewnol a chyhoeddiad y datganiad llywodraethu blynyddol.

Mae'r ddogfen yn nodi canfyddiadau'r gwerthusiad o drefniadau llywodraethu, ac fe'u hategir gan fatrics o dystiolaeth sy'n manylu ar sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn arddangos egwyddorion ac ymddygiadau llywodraethu da.

**Egwyddorion Llywodraethu Da**

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i lywodraethu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys, ar y cyd ac ar wahân, a chaiff ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol.

Mae'r Fframwaith yn galluogi'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i fonitro cyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau priodol, cost effeithiol gan gynnwys sicrhau gwerth am arian.

Mae'r Datganiad hwn yn egluro sut mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sy'n adlewyrchu'r egwyddorion yng nghanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar *Gyflawni Arferion Llywodraethu Da: Nodiadau Canllaw ar gyfer Cyrff Plismona yng Nghymru a Lloegr Rhifyn 2016.*

1. **Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu'r rheol gyfreithiol.**

Mae'r ddwy Gorfforaeth Undyn yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae prosesau ar waith i gefnogi'r egwyddor graidd o ran moeseg ac uniondeb, sy'n unol â Chod Moeseg y Coleg Plismona.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cydymffurfio â'r gyfraith, safonau moesegol priodol a safonau ymddygiad proffesiynol. I gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol):

- Cod Moeseg (cod ymarfer, sef casgliad o egwyddorion a safonau ymddygiad proffesiynol)
- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd ar y Cyd
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- Polisi Cysylltiad Hysbysadwy
- Polisi Buddiannau Busnes
- Polisi a Chanllawiau Camddefnyddio Sylweddau
- Polisi Camymddwyn Staff
- Polisi Urddas yn y Gweithle
- Polisi Tegwch yn y Gwaith
- Polisi Aflonyddu Rhywiol
- Polisi Cwynion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Trefn Gwyno Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn annog ac yn cefnogi swyddogion a staff i herio ymddygiadau sy'n gwneud i gydweithwyr deimlo'n anghyfforddus, yn ofnus neu'n chwithig a'u hadrodd yn gyfrinachol ac yn uniongyrchol i'r Adran Safonau Proffesiynol neu drwy 'Bad Apple', sef system adrodd gyfrinachol sy'n darparu llwyfan ar gyfer sgwrs ddienw ddwyffordd. Yn ogystal â hyn, mae gwybodaeth am sut y dylai'r heddlu adrodd am ddigwyddiad trwy linell uniondeb Crimestoppers ar gael ar fewnrwyd yr heddlu, ynghyd â llinell adrodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Mae gwybodaeth a dderbynnir o'r fforymau amrywiol hyn yn destun datblygiad deallusrwydd rhagweithiol ac ymholiadau monitro busnes cyfreithlon cymesur gan ymchwilwyr a dadansoddwyr yr Uned Gwrth-lygredd. Lle bo'n briodol ac yn dibynnu ar yr amgylchiadau a'r wybodaeth, ymchwilir i achosion wedyn fel materion ymddygiad ac ystyrir cyfweliadau moesegol ac adolygiadau cyfnodol pellach. Ystyrir rhannu gwybodaeth â fetio, adnoddau dynol a/neu heddluoedd a sefydliadau eraill pan caiff ei ystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Mae mesurau ar waith i sicrhau nad yw gweithwyr y Comisiynydd na'r Prif Gwnstabl yn cael eu dylanwadu gan ragfarn, tuedd, neu wrthdrawiad buddiannau wrth ymdrin â rhanddeiliaid gwahanol.

Cyhoeddir Datganiadau o Fuddiant a Chofrestrau Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu, ac mae gweithdrefnau ar waith er mwyn galluogi i unrhyw wrthdrawiad buddiannau gael ei gofnodi.

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau tryloyw a hygyrch ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion.

Mae gan yr Heddlu Adran Safonau Proffesiynol, a'i rôl yw cynnal safonau moesegol a phroffesiynol Heddlu Dyfed-Powys drwy reoli'r defnydd o reoliadau camymddwyn a gweinyddu cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn erbyn swyddogion heddlu a staff yr heddlu islaw rheng y Prif Gwnstabl.

Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl. Bydd y Comisiynydd yn penderfynu sut yr ymdrinnir â'r gŵyn ac a yw'n bodloni'r gofynion i gael ei chyfeirio at Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan y Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Adran Safonau Proffesiynol lle bo angen. Panel Annibynnol yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys sy'n delio ag unrhyw gŵyn ffurfiol yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r heddlu yn cyflogi tîm fetio o fewn yr adran Safonau Proffesiynol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau fetio.

Ers cyflwyno'r Fframwaith Cwynion a Chamymddwyn newydd yn 2020, mae'r Heddlu wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y cwynion a dderbyniwyd. Roedd cynnydd o 14% yn nifer y cwynion a dderbyniwyd rhwng 2021/22 a 2022/23. Cyn hyn, bu cynnydd o 21% ers y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn cwynion yn genedlaethol, er nad yw'r cynnydd mor serth.

| | **Dyfed-Powys** | **% newid** | **Cenedlaethol** | **% newid** |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 753 | - | 67732 | - |
| 2021/22 | 913 | 21% | 75020 | 11% |
| 2022/23 | 1042 | 14% | 81142 | 8% |

Roedd y newidiadau i'r ddeddfwriaeth cwynion yn rhoi mwy o rôl i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i gynyddu annibyniaeth a gwella'r modd yr ymdrinnir â chwynion.

O 1 Chwefror 2020, os yw cwyn wedi'i chofnodi o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod achwynydd yn anhapus â chanlyniad y gŵyn, gall gyflwyno cais am adolygiad i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (os mai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw'r Corff Adolygu Perthnasol). Bydd yr adolygiad yn ystyried a yw canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur.

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng yr Adran Safonau Proffesiynol a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, lle trafodir materion penodol yn ymwneud â chwynion a cheir cyfle i ystyried unrhyw faterion goruchwylio a nodir o adolygiadau cwynion. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i ystyried themâu a dysgu sefydliadol.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, derbyniodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyfanswm o 51 o adolygiadau dilys a chynhaliwyd 74 o adolygiadau cwynion yn ystod y cyfnod hwn gan gynnwys ôl-groniad o'r flwyddyn flaenorol. O'r adolygiadau a gynhaliwyd, cafodd 23 ohonynt eu cadarnhau, 0 eu cadarnhau'n rhannol, ac ni chadarnhawyd 51. Nododd cyfanswm o 23 o adolygiadau (boed wedi'u cadarnhau, eu cadarnhau'n rhannol neu heb eu cadarnhau) argymhellion/gwersi a ddysgwyd.

Ym mis Hydref 2022, cyflwynodd yr Heddlu Fwrdd Dysgu'r Gwersi a sefydlwyd i nodi materion sy'n creu cyfleoedd i alluogi'r heddlu i nodi gwelliannau ac ymgorffori dysgu i liniaru risg. Mae'r bwrdd yn hyrwyddo diwylliant iach o rannu gwybodaeth yn yr Heddlu ac yn galluogi adrannau, timau ac unigolion i gyflwyno syniadau a gwybodaeth sy'n cynnwys dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a deall lle mae problemau'n codi.

Mae’r bwrdd yn ystyried briffiau a chyngor a ddarperir gan gyrff allanol gan gynnwys, ond nid yn unig, Swyddog y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (HMICFRS), Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu, Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio (OSC), Swyddfa Archwilio Cymru, Archwilio Mewnol, a’r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r bwrdd yn hyrwyddo'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a Moesegol a'r Cod Moeseg ymhellach.

Yn ogystal, mae gan yr Heddlu Fwrdd Pobl sefydledig i oruchwylio, cefnogi a gwella perfformiad wrth ddatblygu gweithlu sy'n fwy cynhwysol, yn fwy amrywiol, ac yn adlewyrchu ein cymunedau'n well ac sy'n wrth-wahaniaethol. Mae hefyd yn gyfrifol am staff a lles staff a datblygu cynllun y gweithlu i sicrhau bod gan yr Heddlu'r sgiliau a'r galluoedd i ateb heriau plismona yn y dyfodol o fewn ardal Dyfed-Powys.

Mae’r Comisiynydd yn ddarostyngedig i God Ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a llw ei swydd, ac mae’r Prif Gwnstabl (a phob unigolyn arall sy’n gweithio ym maes plismona) yn ddarostyngedig i God Moeseg y Coleg Plismona, gyda'r ddau yn cadw at egwyddorion Nolan. Pennaeth Staff a Swyddog Monitro’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd yw’r Swyddog Monitro statudol dynodedig, ac mae'n gyfrifol am gynghori ar gyfreithlondeb a phriodoldeb gweithredoedd a phenderfyniadau’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn creu amgylchedd ble y gall pob aelod o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu gyflawni eu cyfrifoldebau yn unol ag arferion da.

Caiff unrhyw ganllawiau a gyflwynir gan bartneriaid a chyrff allweddol, gan gynnwys y Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, eu lledaenu ar draws yr Heddlu.

Yn yr un modd, caiff arferion gorau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu eu sicrhau drwy Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Cymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throseddu a Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a chânt eu lledaenu ymhlith Staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

## 2. Sicrhau didwylledd ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid

Mae gan Gomisiynwyr gyfrifoldeb statudol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, a rhaid iddynt geisio barn y gymuned er mwyn creu cyswllt pontio rhwng yr adran blismona a'r cyhoedd. Mae'r ymgysylltiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau lleol o ran plismona a osodwyd gan y Comisiynydd, fel y manylir arnynt yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys y mae'r Prif Gwnstabl yn ddarostyngedig iddo.

Cynhelir Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned yn rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd â chymunedau lleol i roi llais i bobl leol, i drafod materion sy'n effeithio arnynt, i gytuno ar gamau gweithredu lleol i fynd i'r afael â materion a chytuno ar flaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys grwpiau diddordeb arbennig a grwpiau lleiafrifol o fewn y gymuned.

Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu 'Yma i Chi' i hysbysu cynghorwyr a chynrychiolwyr eraill am ddatblygiadau a newidiadau o fewn yr Heddlu a rhoi cyfle i bobl rannu unrhyw bryderon neu faterion lleol ac mae'n cefnogi 'Ymgysylltu'n Eang' i hyrwyddo un o werthoedd Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25.

Mae ymgysylltu yn hynod werthfawr wrth gefnogi'r Comisiynydd i nodi blaenoriaethau newydd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ac mae'n cadarnhau ymrwymiad yr Heddlu i ymgysylltu'n ehangach â phobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal yr heddlu a chynyddu cyfleoedd i bobl o gefndiroedd amrywiol leisio eu barn, rhannu eu barn a llunio polisïau.

Mae ymgysylltiad yr heddlu â'r cyhoedd yn digwydd ar sawl lefel, o gyswllt stryd dyddiol a galwadau ffôn i gyswllt trwy gyfryngau cymdeithasol, rhyngweithio ar-lein trwy wefan yr heddlu ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau gwasanaeth.

Mae'r Heddlu hefyd yn gweithio gyda nifer o sefydliadau partner, gan gynnwys partneriaethau diogelwch cymunedol ac eraill i fynd i'r afael â throseddau, anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a lleihau aildroseddu.

Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyhoeddi gwybodaeth am eu gwaith a'u cyflawniadau yn rheolaidd ar wefannau priodol, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mewn adroddiadau newyddion lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol, e-fwletinau misol y Comisiynydd, agendâu a chofnodion cyfarfodydd cyhoeddus, yn ogystal â chofnodion unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd.

Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn barhaus er mwyn llywio penderfyniadau a chefnogi gweithgarwch craffu'r Comisiynydd. Cynhelir ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer penderfyniadau penodol megis praesept y dreth gyngor.

Yn fewnol, caiff swyddogion yr heddlu, staff yr heddlu a staff Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu y wybodaeth ddiweddaraf trwy dudalennau mewnrwyd newydd yr heddlu (DPPi2), sy'n cynnwys blogiau Prif Swyddogion a chyfleoedd i ofyn cwestiynau i'r Prif Gwnstabl. Mae #Dydd Gwener Ffilm wedi parhau i ddarparu ffilm fer wythnosol sy'n amlygu gwaith, newyddion a chyflawniadau allweddol ar draws yr heddlu, gyda chyfraniadau gan y Comisiynydd a Phrif Swyddogion.

Bydd panel yr Heddlu a Throseddu, sy'n cynnwys aelodau o awdurdodau lleol ac aelodau annibynnol, yn craffu ar waith y Comisiynydd ac yn ymgynghori â'u cymunedau lleol. Rôl y Panel yw craffu ar weithredoedd a phenderfyniadau'r Comisiynydd, gan ddarparu cefnogaeth a'i herio drwy gymryd rôl cyfaill beirniadol.

Mae'r Comisiynydd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi gwybodaeth ar y wefan ar gyfer y cyhoedd er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, sy'n helpu i sicrhau ei fod yn bodloni'r rhwymedigaethau o dan Orchymyn Cyrff Plismona Etholedig (gwybodaeth benodedig) 2011 (fel y'i diwygiwyd) a'r gofyniad o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd y CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu - Arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) asesiadau o'r modd y cyflawnodd Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) eu rhwymedigaethau statudol o ran tryloywder. Ers 2021, mae'r penderfyniad wedi'i wneud i beidio â chynnal yr archwiliadau Nod Ansawdd Tryloywder, ond, trwy drefniadau craffu mewnol, mae'r swyddfa wedi sicrhau bod yr holl ofynion cyhoeddi statudol yn cael eu bodloni fel arfer.

Mae'r Comisiynydd yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried a thrafod perfformiad y system cyfiawnder troseddol leol ac unrhyw faterion neu fentrau y mae'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yn mynd i'r afael â nhw, yn unigol neu ar y cyd.

Mae gan y Prif Gwnstabl gyfrifoldeb statudol i wneud trefniadau er mwyn casglu barn y cyhoedd am drosedd ac anhrefn yn eu hardal. Mae'r Heddlu'n ymgysylltu â'r cyhoedd ar sawl lefel, o gyswllt dyddiol ar y stryd a galwadau ffôn i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac arolygon ffurfiol mewn perthynas â blaenoriaethau, lefelau ac ansawdd gwasanaeth.

Oherwydd cyfyngiadau a osodwyd gan y pandemig COVID-19, ataliwyd yr holl arolygon cam-drin domestig oherwydd y risg uwch i ddioddefwyr a oedd yn ynysu gyda chyflawnwyr. Cafodd arolygon bodlonrwydd dioddefwyr ar gyfer pob math arall o drosedd hefyd eu gohirio dros dro gydag arolygon awtomataidd yn cael eu datblygu i'w defnyddio trwy e-bost yn ystod cyfyngiadau nes bod modd ailddechrau arolygon.

Defnyddiodd yr Heddlu'r cyfnod hwn i adolygu prosesau a dulliau arolygon a phenderfynwyd rhoi arolygon ar gontract allanol i gwmni ymchwil cymdeithasol annibynnol i gynnal arolygon boddhad dioddefwyr. Dechreuodd yr arolygon hyn ym mis Mawrth 2022 ar raglen dreigl 12 mis.

Mae canlyniadau cynnar yn dda/rhagorol mewn nifer o feysydd ac mae hefyd yn darparu mewnwelediad cynnar i feysydd i'w gwella. Wrth i'r Heddlu gael mwy o ddata, bydd yn gallu nodi tueddiadau a themâu sy'n codi dro ar ôl tro sy'n cael eu hadrodd i fwrdd Model Gweithredu'r Heddlu.

**3. Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.**

Y Cynllun Heddlu a Throseddu yw'r cynllun corfforaethol a osodwyd gan y Comisiynydd i'w gyflawni o fewn pum mlynedd. I gefnogi hwn, datblygodd y Prif Gwnstabl Gynllun Cyflawni'r Heddlu. Adroddir ar gynnydd o ran y cynllun hwn i'r Comisiynydd yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona a gynhelir yn gyhoeddus bob chwarter.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn rhannu gweithgaredd â'r cyhoedd trwy'r wefan a thrwy weithgareddau ymgysylltu amrywiol megis taflen y dreth gyngor.

Ym mis Ionawr 2022, lansiodd yr Heddlu yr wythnos gyntaf o weithredu yn y Gymdogaeth i gydnabod y rôl hollbwysig y mae swyddogion Plismona Bro, Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a gwirfoddolwyr yn ei chyflawni yn y gymuned. Mae'r model Plismona Bro yn parhau i fod wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau ac mae'n parhau i gael ei ategu gan ymateb lleol, ymchwiliadau i droseddau, gweithrediadau arbenigol a swyddogaethau diogelu, a gefnogir yn ganolog gan y ganolfan bregusrwydd aml-asiantaeth sefydledig.

Llwyddodd yr Heddlu i ragori ar darged Blwyddyn 3 Ymgyrch Uplift o 1304 o swyddogion erbyn y dyddiad gofynnol, sef 31 Mawrth 2023, a chyfrannodd hefyd at gyflawni'r targed cenedlaethol o 20,000 o swyddogion ychwanegol drwy recriwtio 13 pellach o darged o 15 y cytunwyd arno.

Dros gyfnod 3 blynedd Ymgyrch Uplift rhoddwyd pwyslais mawr ar wella amrywiaeth y gweithlu gyda chefnogaeth gweithredu cadarnhaol i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Arweiniodd hyn at wella cyfran y swyddogion benywaidd yn yr Heddlu o 34% i 36% a gwella cyfran y swyddogion sy'n nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd, Cymysg neu Arall o 1.3% i 2.4%.

Bydd hyn yn sicrhau gallu'r Heddluoedd i gynnal niferoedd swyddogion a pharhau i allu denu a chadw talent mewn marchnad gyflogaeth gynyddol heriol. Mae'r Heddlu wedi datblygu Polisi Cadw newydd a bydd yn cyflwyno rolau newydd i gynnwys recriwtio Swyddog Denu Talent a Swyddog Cadw Llesiant.

Bydd yr Heddlu yn disodli'r holiadur ymadael presennol ac yn defnyddio cyfweliad ymadael wyneb yn wyneb gyda swyddogion/staff cyn gynted ag y daw'r heddlu yn ymwybodol y gallent fod yn ymddiswyddo.

Enillodd yr Heddlu achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl Lefel Aur ar 15 Rhagfyr 2022.

Ym mis Medi 2022, lansiodd yr Heddlu Raglen Adolygu'r Heddlu sydd wedi'i sefydlu i gefnogi, herio a hwyluso nodi gwelliannau gweithredol a busnes i gefnogi'r gwaith o gyflawni targedau arbedion cyllideb o tua £10 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Bydd y rhaglen newydd yn sicrhau bod busnes yr Heddlu yn cael ei gyflawni mewn modd fforddiadwy a chynaliadwy, ac yn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau yn amharu ar flaenoriaethau gweithredol a busnes. Bydd hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer syniadau newydd, gan ddefnyddio a mabwysiadu arferion gorau o adnoddau mewnol ac allanol a herio'r dulliau presennol o feddwl a ffyrdd o weithio.

Mae'r Heddlu wedi gwneud nifer o welliannau yn dilyn yr Achos Carlam o Bryder (HMICFRS) o ran cofnodi troseddau a chywirdeb data troseddau yn 2021. Cafodd y pryder ei ddileu yn dilyn arolygiad ym mis Gorffennaf 2022.

Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu yn manylu ar y galw am wasanaethau'r heddlu a'r adnoddau sydd eu hangen i gwrdd â'r galwadau hynny, ynghyd â manylion y meysydd a nodwyd i fynd i'r afael â hwy trwy fuddsoddiad.

Cyflwynodd y prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd a oedd yn canolbwyntio ar droseddau ar lefel heddlu, ymchwiliadau a chanlyniadau Canolfan Troseddau a Digwyddiadau newydd gyda'r nod o wella prosesau o'r pwynt cyswllt cyntaf, cofnodi, ymchwilio a chymhwyso canlyniadau a gwblhawyd yn 2023.

Roedd naw egwyddor O'r Dechrau i'r Diwedd yn ymwneud yn bennaf â rheoli'r galw a chadarnhaodd adroddiadau ym mis Mawrth 2022 bod cyfradd canlyniadau cadarnhaol y Ganolfan Troseddau a Digwyddiadau 8 i 11% yn well wrth ymdrin â 75% o ddigwyddiadau a drefnwyd.

Amlygodd y prosiect a'r model gweithredu newydd nifer o feysydd i'w gwella, ac amlygodd mwy o graffu allanol ychwanegol, offer perfformiad a dangosfyrddau faterion mewn ymchwiliadau i droseddau.

Er mwyn parhau i wella gwasanaeth, caewyd O'r Dechrau i'r Diwedd ac mae rhaglen waith newydd wedi'i sefydlu gyda chefnogaeth Bwrdd Model Gweithredu'r Heddlu. Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro o amgylch Asesiad Gwasanaeth Dioddefwyr HMICFRS, gan ganolbwyntio ar berfformiad gwell yn hytrach na rheoli galw i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi, niwed yn cael ei atal a bod y system gyfiawnder yn fwy effeithiol.

Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a datgarboneiddio a chyflawni amgylchedd gwyrddach a mwy cynaliadwy.

Mae Grŵp Cynaladwyedd yr Heddlu yn adolygu'r holl effeithiau cynaliadwyedd gydag adroddiadau gan grwpiau rheoli ynni a rheoli cyfleustodau yn olrhain mentrau defnyddio ac arbed ynni a chynlluniau gweithredu yn barhaus. Caiff tueddiadau defnydd cyfleustodau a gwelliannau eu holrhain ar lefel adeiladau a chyfleustodau.

Mae gweithrediadau ystadau yn cynnal cynllun datgarboneiddio ac yn cynnal astudiaethau dichonoldeb cynllun cyfalaf sy'n cynnwys technolegau ffotofoltäig, goleuadau LED a thechnolegau lleihau ynni a gwelliannau adeiladwaith. Mae cyllid ar gyfer gwaith wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyfalaf Ariannol Tymor Canolig a bydd yn canolbwyntio ar adeiladau pencadlys rhanbarthol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Heddlu wedi ymrwymo i Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio Cymru a gyflwynwyd yn 2022/23.

Mae contract rheoli gwastraff newydd wedi'i dargedu i leihau tirlenwi yn sylweddol, lleihau ôl troed carbon yr Heddlu a chreu arbedion. Mae pob cynllun caffael yn cael ei dendro gyda 10% yn cyd-fynd â'r adrannau cost ac ansawdd i asesu cynaliadwyedd gan sicrhau y bydd unrhyw effeithiau ar y gadwyn gyflenwi yn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau lleol, ôl troed carbon ac effaith economaidd-gymdeithasol ehangach gwariant yr Heddlu ar draws yr holl wariant mawr.

## 4. Pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i sicrhau'r canlyniadau bwriadedig

Caiff canlyniadau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl eu hategu gan Gynlluniau Cyflawni sy'n manylu ar yr ymyriadau sydd eu hangen. Ategir hyn gan wybodaeth am berfformiad a ystyrir gan Fwrdd Perfformiad yr Heddlu, o dan gadeiryddiaeth y Prif Gwnstabl, yn

ogystal â'r Bwrdd Plismona a Byrddau Atebolrwydd yr Heddlu, sy'n canolbwyntio'n rheolaidd ar gyflawni yn erbyn canlyniadau arfaethedig.

Ym mis Ebrill 2022, cadarnhaodd y Prif Gwnstabl y blaenoriaethau sy'n llywio Cynllun Cyflawni'r Heddlu (2022-25).

- Dileu cam-drin domestig, stelcio ac aflonyddu
- Gwneud ardal Heddlu Dyfed-Powys yn rhywle gelyniaethus i'r rheini sy'n delio mewn cyffuriau
- Ymateb yn dosturiol i ddioddefwyr trais rhywiol ac ymosodiad rhywiol difrifol, ac erlid troseddwyr yn ddi-baid

Mae'r Heddlu wedi integreiddio proses Datganiad Rheoli'r Heddlu yn ei gylch Cynllunio Blynyddol. Mae hyn yn darparu cyswllt cryf rhwng argymhellion Datganiad Rheoli'r Heddlu, prosesau asesu Strategol (MORILE), gwaith cynllunio'r gweithlu, y strategaeth gyfalaf, ac yn y pen draw, y Cynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n ffurfio rhan o ystyriaethau gosod praesept blynyddol y Comisiynydd.

Nododd yr Heddlu fod angen adolygu atgyfeiriadau dioddefwyr i wasanaethau gofal dioddefwyr yn haf 2022. Cynhaliwyd digwyddiad gwelliant parhaus i adolygu newidiadau i brosesau, gan amlygu gorgynllunio a biwrocratiaeth yn y broses. Symleiddiodd yr Heddlu'r broses o dri chategori i'r categorïau safonol ac uwch yn unol â'r Cod Dioddefwyr a arweiniodd at ddileu ôl-groniadau o fewn mis i gyflwyno'r newidiadau.

Mae'r galwadau y maes Fforensig Digidol gyda chynnydd yn y galw wedi arwain at ôl-groniadau ac mae'r Heddlu'n edrych ar sut y gellir lleihau'r galwadau trwy frysbennu effeithiol. Mae buddsoddiad mewn adnoddau ychwanegol a gallu gweinydd newydd yn cael eu datblygu ynghyd ag opsiynau ymarferol i flaenoriaethu buddsoddiad yn y maes hwn wrth symud ymlaen.

Arweiniodd cyflwyno'r Ddeddf Mechnïaeth (2022) at newidiadau angenrheidiol i systemau TG i reoli'r prosesau newydd. Yn ogystal, diwygiodd Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd (2022) mewn perthynas â phlismona, Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006, Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 a throseddau o dan adrannau 12 a 14 o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986.

Dechreuodd y Prosiect Dronau ym mis Tachwedd 2022, gan hyfforddi 10 peilot o'r Uned Plismona'r Ffyrdd gyda lleoliadau wedi'u cynllunio ymlaen llaw ym mis Rhagfyr 2022 a chynlluniau i'w defnyddio'n ddigymell o fis Ionawr 2023 ar ôl i'r Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) gymeradwyo. Dechreuodd cwch morol newydd weithredu ym mis Tachwedd 2022.

Yn 2022/23 gwelwyd cynnydd sylweddol mewn protestiadau gweithredu uniongyrchol, gweithredu diwydiannol a streiciau ledled y DU. Mae'r Heddlu'n gweithio gyda Phwyllgor Cydlynu Gweithrediadau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i liniaru effeithiau tarfu. Roedd adnoddau'r heddlu yn cefnogi Operation London Bridge, cynllun angladd Brenhines Elizabeth II.

Drwy gydol y cyfnodau brig ac ymchwydd mewn galw, mae'r Heddlu wedi cynnal ei ymrwymiad i sicrhau ymateb plismona effeithiol i'n cymunedau drwy flaenoriaethu adnoddau digonol yn ystod y galwadau brig. Sicrhau diogelwch a lles swyddogion a galluogi'r Heddlu i gyfathrebu'n effeithiol, darparu gwelededd ac ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd.

Mae goblygiadau cynnydd annisgwyl a disgwyliedig mewn galw yn amrywio o symudiadau cyhoeddus torfol anghyfyngedig, pryderon diogelwch cyhoeddus cysylltiedig, mannau gorlawn, i blismona cyffredinol a chynnydd mewn troseddau, i gyd yn effeithio ar bartneriaid ar draws ardal ddiffiniedig Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed-Powys.

Amcan strategol yr ymgyrch hon yw cadw ein cymunedau'n ddiogel, diogelu'r rheini sy'n fregus, amddiffyn pobl rhag niwed difrifol ac ymgysylltu â chymunedau.

Trwy gydol y flwyddyn, mae cynlluniau penodol ar gyfer lleoliadau allweddol yn cael eu creu lle mae bygythiad penodol wedi'i nodi yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae cynlluniau patrôl ar gyfer ardaloedd o bwys, megis traethau a mannau agored, wedi'u creu a byddant yn cael eu gweithredu.

Bydd pwyntiau pwysig o ran galw ac adnoddau yn cael eu nodi ar gyfer ystod o risgiau er mwyn cefnogi penderfyniadau gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu hadolygu'n wythnosol mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol ar draws Ardaloedd Plismona Lleol.

Roedd Cyfathrebu Corfforaethol yn gyfrifol am nifer o ymgyrchoedd allanol sy'n codi ymwybyddiaeth, darparu gwybodaeth ac yn rheoli ymgysylltiad cymunedol yn effeithiol dros gyfnod yr haf, yn unol â'n blaenoriaethau allweddol.

Roedd yr ymgyrchoedd hyn yn cynnwys hyrwyddo gwasanaeth i wneud strydoedd yn fwy diogel i fenywod, Ymgyrch Flamenco, targedu rêfs anghyfreithlon; Ymgyrch Darwin gyda'r nod o gynyddu diogelwch beicwyr modur a defnyddwyr eraill y ffyrdd; Wythnos Ymwybyddiaeth o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ac ymgyrch Cam-drin Domestig i annog adrodd am droseddau, sy'n cynyddu dros gyfnod yr haf.

Mae'r Heddlu wedi cael gradd Dda gan HMICFRS[1] (cyhoeddwyd 2022) am atal trosedd, ymateb i'r cyhoedd, amddiffyn pobl fregus, a datblygu gweithle cadarnhaol. Digonol ar gyfer ymchwilio i droseddau, cefnogi dioddefwyr, cofnodi data am droseddau, rheoli troseddwyr, tarfu ar droseddau difrifol a threfniadol a defnydd da o adnoddau.

Mae meysydd y mae angen eu gwella o ran trin y cyhoedd yn ymwneud yn benodol â'r angen i wella'r modd y mae'n craffu ar ddata stopio a chwilio a'r defnydd o rym ac mae angen gwelliannau mewn ymchwiliadau i stelcian ac aflonyddu.

Er mwyn amddiffyn cymunedau Dyfed-Powys a tharfu ar droseddau, mae defnyddio stopio a chwilio yn arf effeithiol. Nododd adroddiad ar adolygiad mewnol ym mis Mawrth 2022 feysydd i'w gwella gan gynnwys y defnydd o gamera corff i'w adolygu gan oruchwylwyr gyda hapsamplau o chwiliadau'n cael eu cynnal i sicrhau nad oes unrhyw anghymesuredd penodol. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod data a ddefnyddir i bennu anghymesuredd yn seiliedig ar niferoedd ac yn cynnwys pobl sy'n ymweld â phoblogaethau dros dro o weithgareddau trawsffiniol.

Ym mis Chwefror 2022, mewn ymateb i ganfyddiadau o Arolygiad Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu, adroddodd yr Heddlu ar gynnydd y prosiect Stelcio ac Aflonyddu yn ymwneud â Cham-drin Domestig a oedd yn canolbwyntio ar nodi ac ymateb

[1] PEEL 2021/22: Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu – Arolygiad o Heddlu Dyfed-Powys (justiceinspectorates.gov.uk)

cychwynnol, ymchwilio, canlyniadau cyfiawnder troseddol a diogelu. Gwnaeth canlyniadau'r adolygiad interim bennu'r camau i'w cymryd.

- Gwella'r ymateb o'r cyswllt cychwynnol i'r cam cwblhau
- Diogelu prosesau at y dyfodol i wella gwasanaethau i ddioddefwyr yn barhaus
- Datblygu hyfforddiant newydd a gwella gwybodaeth

Ystyrir nifer o ddylanwadau a gofynion allanol sy'n cynnwys.
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Fregusrwydd (NVAP)
- Strategaeth a Chynlluniau Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi Ymateb yr Heddlu i Drais yn Erbyn Menywod a Merched (Medi 2021)
- Deddf Cam-drin Domestig 2021 (canllawiau statudol Gorffennaf 2022)

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y strwythur adrodd ar gyfer Grŵp Gweithredol Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol wedi'i alinio ag Op Soteria.

Arweiniodd gwelliannau yn ansawdd ffeiliau gyda’r Gwasanaeth Eryl y Goron at ganlyniadau a oedd yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol mewn Llysoedd Ynadon a’r Goron gan gynnwys cynnydd o 31% mewn cyflwyno ffeiliau Cam-drin Domestig i Wasanaeth Eryl y Goron yn 2022.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Cronfeydd yn gydrannau allweddol o'r broses hon a rhoddir cyflwyniadau ar ganlyniadau a chynigion cyllidebol i'r Comisiynydd, i Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio, i aelodau archwilio allanol ac i aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu yn y Seminar Cyllid yn flynyddol.

Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gyfalaf eu cefnogi yn eu tro gan gynllun arbedion manwl, cynllun gweithlu, cynllun hyfforddi, strategaeth TGCh, Strategaeth Ystadau, a rhaglen adnewyddu cerbydau. Mae hyn yn galluogi cyllidebau manwl (refeniw a chyfalaf) a sefydliadau gweithlu i gael eu neilltuo i feysydd adrannol. Cefnogir Rheolwyr Gweithredol a Phenaethiaid Adrannau gan Bartneriaid Busnes Cyllid ac Arbenigwyr AD sy'n eu galluogi i nodi pwysau a bwydo i mewn i'r cylch cynllunio a monitro ariannol.

O safbwynt gweithredu o ddydd i ddydd, cefnogir y broses drwy osod tasgau, briffio, a defnyddio prosesau asesu datblygiad unigol i sicrhau bod staff yn derbyn y dasg briodol ac yn cyfrannu'n llawn mewn ffordd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau a blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu.

Mae Cod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (2020) yn ddull sy’n seiliedig ar egwyddor i gefnogi arferion da mewn rheolaeth ariannol i ddangos cadernid a chynaliadwyedd ariannol. Mae'r Cod Rheolaeth Ariannol yn seiliedig ar saith safon rheolaeth ariannol sy'n cwmpasu arweinyddiaeth, atebolrwydd, tryloywder, safonau, sicrwydd a chynaliadwyedd. Cynhelir hunanasesiad blynyddol ar draws yr 17 agwedd greiddiol a 68 cwestiwn i ystyried y trefniadau sydd ar waith, asesu cydymffurfiaeth a nodi meysydd i'w gwella. Ystyrir yr asesiad hwn gan yr Archwiliad ar y Cyd fel rhan o'u gwaith sicrwydd. Mae'r

asesiad diweddaraf yn dangos cydymffurfiaeth gwell ag ychydig o feysydd i'w gwella fel y nodwyd yn y cynllun gweithredu.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau cadarn er mwyn cyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn darparu llinell adrodd glir ar gyfer penderfyniadau a chamau gweithredu. Mae gan Uwch Arweinwyr sydd islaw lefel y Prif Swyddog fwy o gyfrifoldeb dros gadeirio a gwneud penderfyniadau, sy'n cefnogi camau gweithredu hyblyg a chanlyniadau ac atebolrwydd gwell o ran gwneud penderfyniadau.

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaed nifer fach o newidiadau i gyfarfodydd drwy symud Bwrdd Cefnogi Dioddefwyr ac Uniondeb Data Troseddu o'r lefel Strategol, a bod y grŵp tactegol yn adrodd i'r Bwrdd Newid a Thrawsnewid yn dilyn cadarnhad o welliannau mewn cofnodi troseddau a chywirdeb data trosedd yn 2021, a ddilëwyd ym mis Gorffennaf 2022.

Tynnwyd y term 'Adfer' o'r Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid ar ôl COVID-19 a sefydlwyd Bwrdd Cyllid Strategol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) newydd ym mis Hydref 2022, i gyfarfod yn fisol. Roedd y newid yn cydnabod ac yn cefnogi'r heriau ariannol yn yr Heddlu.

Mae Bwrdd Dysgu'r Gwersi wedi'i greu, ac adolygwyd y Bwrdd Gofyniad Plismona Strategol a diweddarwyd y Cylch Gorchwyl yn dilyn cyhoeddi'r Gofyniad Plismona Strategol newydd ym mis Chwefror 2022.

Mae llywodraethu ac adrodd yn destun adolygiad blynyddol (mis Mawrth) ac yn ystyried y canlynol:

- Asesiad o ba mor dda y mae'r strwythur llywodraethu yn cefnogi'r heddlu i gyflawni ei rwymedigaethau cydymffurfio a rheoli risg.
- Cael gwell dealltwriaeth o p'un a yw'r llywodraethu yn cefnogi neu'n rhwystro cyflawni'r blaenoriaethau a'r strategaethau
- Nodi meysydd i'w gwella
- Egluro rolau a chyfrifoldebau
- Adolygu'r broses gwneud penderfyniadau tactegol a strategol
- Asesu cadernid a phriodoldeb

Nodwyd tri maes i'w gwella i gynnwys.

- Gwelliannau i aliniad cyfarfodydd
- Gwelliannau o ran cydnabod ac adrodd ar feysydd gwaith rhyngddibynnol wrth adrodd
- Gwelliannau o ran disgyblaeth cyfarfodydd/gweinyddu papurau (diffyg cysondeb wrth adrodd)

Yn gyffredinol, mae'r newidiadau i lywodraethu a gyflwynwyd yn 2021/22 yn gweithio'n effeithiol gyda dau Fwrdd yn cael eu
hamlygu ar gyfer adolygiad.

- Bwrdd Pobl
- Bwrdd Perfformiad

Cefnogir y broses achos busnes ffurfiol gan y Bwrdd Newid a Thrawsnewid a'r Bwrdd Cyllid Strategol a CATC. Mae Fframwaith Rheoli Buddion wrthi'n cael ei ddatblygu a fydd yn nodi'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y mae'n rhaid i'r Heddlu eu dilyn.

Mae'r fframwaith yn rhan o gyfres o ganllawiau corfforaethol a dogfennau a ddatblygwyd gan yr Heddlu, i gefnogi prosesau ac arferion cyson ac effeithiol, ac mae'n cefnogi'r broses o weithredu prosiectau a newid gan roi mwy o bwyslais ar ennill effeithlonrwydd a/neu arbedion ariannol.

Mae'r Fframwaith Comisiynu yn nodi sut mae'r Comisiynydd yn cydweddu'r Gyllideb Gomisiynu â'r themâu allweddol a'r blaenoriaethau strategol yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu.

Mae hafan ar-lein sengl yn parhau i ddatblygu ac ehangu gwasanaethau ar-lein newydd neu well trwy gyflwyno'r canlynol.

- Adrodd ar-lein am Lwgrwobrwyo a Llygredigaeth, Troseddau Casineb, Pobl ar Goll, Hawliau Gwybodaeth (SAR)
- Gwelliannau i'r Ffurflen Ddiolch, Trwyddedu Arfau Saethu, Cysylltu â Ni, Adrodd am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, StreetSafe, Cwynion
- Cyngor a Gwybodaeth i gynnwys blacmel rhywiol, Cam-drin Plant sy'n Gyfoedion, Dwyn Tanciau Olew, Bod yn Ddienw, Gyrru, Stopio a Chwilio
- Cais Ar-lein trwy Gyngor ar wneud Cais am yr wybodaeth Ddiweddaraf am Drosedd

Mae adolygu a phrofi'r gwasanaethau newydd a gwell yn parhau i roi llawer o bwysau ar adnoddau er mwyn gwirio a phrofi gwasanaethau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Cafodd y dyddiad arfaethedig i ddisodli system rheoli cofnodion yr Heddlu i Niche RMS ei symud o Chwefror 2022 a'i aildrefnu i fis Mai 2023. Mae'r Heddlu wedi ymuno â Chydweithrediad Arfordir y Gorllewin ar gyfer Niche.

Mae cwblhau'r prosesau a gwaith trosi ôl-gofnodion data manwl yn mynd rhagddo, gyda nifer yr enghreifftiau o ryddhau Niche cyn ei weithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw geisiadau i newid y cytunwyd arnynt neu faterion a godwyd. Mae pob iteriad o newidiadau a llwythi trosi ôl-gofnodion data yn cael eu profi, ac mae hyfforddi staff wedi dechrau.

Mae paratoadau ar gyfer y newid yn cynnwys.

- Hyfforddiant
- Datblygiad/aliniad/integreiddiad dyddiad symudol PRONTO
- TWIF (rhyngwyneb dwy ffordd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron)
- Datblygiadau rhyngwyneb eraill (Gorchymyn a Rheoli STORM, cronfa ddata genedlaethol yr heddlu)
- Mapiau gwybodaeth reoli i alluogi cynhyrchu dangosfyrddau perfformiad

Yn ogystal, mae cwmpas y newidiadau wedi golygu bod angen gweithredu'r system Genedlaethol Adrodd a Rhannu Gwrthdrawiadau (CRaSH) a'i hintegreiddio â'r system brosesu cosb benodedig genedlaethol (PentiP).

Mae'r Heddlu'n disodli ei system ymateb brys Teleffoni a System Gorchymyn a Rheoli Integredig (ICCS). Bydd y prosiect yn cyflwyno'r datrysiad newydd fesul cam, gyda'r cam cyntaf yn darparu teleffoni newydd ac ICCS ym mis Medi 2023, a'r ail gam yw darparu datrysiad Rheoli Perthynas

Cwsmer newydd yn 2024. Mae gwaith paratoi technegol a dylunio busnes sylweddol wedi dechrau gweithio gyda chyflenwyr newydd.

Mae'r Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith Cenedlaethol (LEDS) yn lle Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, yn dilyn dull sy'n canolbwyntio ar y cynnyrch ac mae nifer o gynhyrchion wedi'u darparu gan gynnwys Gyrwyr a Chynhyrchion Eiddo LEDS.

Mae'r Heddlu wedi symud i Lwyfan Gwybodaeth Reoli (MS PowerBI) a gynhelir yn y cwmwl. Mae'r platfform yn cydymffurfio â Pharth Glanio Sicr yr Heddlu ar MS Azure gyda gwaith wedi'i ddechrau gan yr Adran Perfformiad i ddarparu dangosfyrddau perfformiad cyfredol a pherthnasol i swyddogion o bob rheng, gan ddarparu galluoedd dadansoddi data gwell i'r Heddlu.

Fel rhan o daith awtomeiddio digidol yr Heddluoedd, mae'r broses Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) gyntaf ar gyfer MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth) wedi'i hawtomeiddio'n llwyddiannus gydag 20 a mwy o brosesau'n cael eu hystyried ar gyfer awtomeiddio gyda gwaith ar y broses fetio wedi dechrau.

Mae'r galw ar draws TGCh yn parhau i fod yn fwy na'r adnoddau ar gael, ac mae blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n gyson sy'n arwain at ohirio nifer o feysydd a datblygiadau nes bydd adnoddau ar gael. Mae hyn yn rhannol oherwydd anawsterau recriwtio staff technegol arbenigol profiadol sydd wedi'i gydnabod fel mater cenedlaethol ar draws plismona.

Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yn cydweithio â phartneriaid plismona yng Nghymru (Gwent, Gogledd Cymru, De Cymru), ac maent wedi ymrwymo i gydweithio i amddiffyn cymunedau Cymru rhag risg a niwed.

Er gwaethaf yr heriau gweithredol a systematig a'r tirwedd ariannol anodd, mae heddluoedd Cymru yn cydweithio i sicrhau y caiff adnoddau cyhoeddus eu defnyddio yn fwy effeithiol ac effeithlon, ac maent wedi ymrwymo i weithio er mwyn sicrhau mwy o ryngweithredu a safoni ar draws pob maes plismona.

Ym mis Mai 2022, cyfarwyddodd Cydweithrediad Heddlu Cymru adolygiad i gwmpasu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu hirdymor i gynnwys SARCs (Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol), Ymchwiliad Fforensig i Wrthdrawiadau, Gwasanaethau Fforensig i gynnwys Achrediad ISO a Systemau Rheoli Ansawdd.

Amlygodd Uwchgynhadledd Fforensig Cymru ym mis Awst 2022 y cymhlethdod, y galw cynyddol a'r rhwymedigaethau ariannol a arweiniodd at gynigion ar gyfer newid fesul cam drwy sefydlu Cynghrair Fforensig Strategol.

Ym mis Mehefin 2022, dechreuodd yr Heddlu gynnal trefniant Cydweithio Fforensig Consortiwm Arfordir y Gorllewin a'r De gyda 19 o heddluoedd yn cymryd rhan.

Caiff cydweithrediad yng Nghymru ei gefnogi gan strwythur llywodraethu ac atebolrwydd sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau'r Grŵp Plismona yng Nghymru a Grŵp Prif Swyddogion Cymru yn glir.

## 5. Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth ac unigolion o fewn yr endid

Mae gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl strwythurau a rolau diffiniedig i alluogi arweinyddiaeth effeithiol yn unol â Phrotocol Plismona 2011, gyda chytundebau lleol o rolau a chyfrifoldebau a nodir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd.

Mae Strategaeth Arweinyddiaeth yr Heddlu yn cefnogi datblygiad arweinwyr presennol ac arweinwyr y dyfodol i'w galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Mae'r Heddlu'n grymuso arweinwyr i adeiladu timau effeithiol sy'n cyflawni'n gyson, gan ddeall bod arweinwyr effeithiol yn effeithio'n uniongyrchol ar gymhelliant a chadw.

Mae llesiant ein gweithlu o'r pwys mwyaf ac yn flaenoriaeth allweddol, yn enwedig wrth ragweld yr ansicrwydd a fydd yn datblygu drwy Raglen Adolygu'r Heddlu. Mae Strategaeth Lesiant yr Heddlu yn cofleidio'r Strategaeth Llesiant Golau Glas ac yn cael ei meincnodi yn erbyn Safon Llesiant Buddsoddwyr mewn Pobl.

Cynhaliodd Rhaglen Adolygu'r Heddlu ymgynghoriad ar Strwythur Arweinyddiaeth Sefydliadol y Dyfodol ym mis Chwefror 2023. Mae'r strwythur arfaethedig yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod yr Heddlu yn y sefyllfa orau i ateb heriau'r dyfodol ac i gyflawni'r blaenoriaethau, gyda llinellau adrodd symlach ac ail-alinio swyddogaethau.

Mae swyddogion a staff wedi parhau i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i'n cymunedau mewn cyfnod o ansicrwydd. Mae llawer wedi gwneud hynny a rheoli eu pryderon a'u hofnau eu hunain yr un pryd, gan gydbwyso gofynion proffesiynol a phersonol sy'n gwrthdaro. Mae llesiant meddyliol a chorfforol wrth wraidd sylw'r Prif Swyddogion a'r Comisiynwyr, yn ogystal â sicrhau cymorth i'n gweithlu.

Mewn cydweithrediad â heddluoedd Gwent a De Cymru, mae'r Heddlu wedi caffael system rheoli cleifion newydd i alluogi'r Heddlu i symud o system cofnodion Iechyd Galwedigaethol ar bapur, gan wella effeithlonrwydd a lleihau biwrocratiaeth. Bydd y system newydd yn cael ei rhoi ar waith yn 2023/24.

Mae'r Proffil Asesu Datblygiad yn gysylltiedig â'r Safonau Datblygiad Cyflog a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022 ar gyfer swyddogion heddlu, gan gysylltu perfformiad a dilyniant i gynnwys ardystiad gan bob swyddog ac aelod o staff.

Mae'r Heddlu yn hyrwyddo ethos o welliant parhaus ac mae'n rhagweithiol wrth hyrwyddo arfer arloesol er mwyn lleihau costau sefydliadol a pherfformiad gwella. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff yn cael y cyfle i helpu i lywio newid sefydliadol a gwelliannau i wasanaethau.

Mae'r Heddlu yn parhau i weithio gydag Unsain, y Ffederasiwn a Chymdeithas yr Uwcharolygwyr ar y cynllun naw pwynt i sicrhau dull cyson o ymdrin ag ymosodiadau ar staff a swyddogion. Mae'r Heddlu yn hyrwyddo Oscar Kilo, Gwasanaethau Llesiant Cenedlaethol yr Heddlu, gan weithio'n agos gyda'r Coleg Plismona, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a'r Swyddfa gartref i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

## 6. Rheoli Risgiau a Pherfformiad trwy Drefniadau Rheoli Mewnol Cadarn a Rheolaeth gref dros Arian Cyhoeddus

Mae yna ddiwylliant rheoli risg wedi'i ymwreiddio ar draws y ddau sefydliad ac ar bob lefel, gyda swyddogion a staff yn rheoli risg yn effeithiol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd.

Ar lefel adrannol a lleol, lle mae risgiau'n ymwneud â gweithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd, cânt eu rheoli drwy gofrestrau risg adrannol a'u monitro o fewn yr adran a'u huwchgyfeirio yn unol â goddefiannau risg adrannol oni bai fod angen uwchgyfeirio risg i'r lefel strategol lle caiff ei asesu a'i gofnodi ar Gofrestr Gorfforaethol yr heddlu.

Mae trefniadau dwyochrog ar waith rhwng yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer trafod unrhyw risgiau a nodwyd a allai fod yn berthnasol i'r Gorfforaeth Undyn arall. Os bydd y naill sefydliad neu'r llall yn gwrthod cais i gofnodi risg ar y ddwy gofrestr gorfforaethol, gallai'r maes risg gael ei drafod gan y Bwrdd Plismona. Yr unig wahaniaeth yn y modd yr ymdrinnir â risgiau ym mhob Corfforaeth Undyn yw'r sgorau risg, a bennir yn annibynnol yng nghyd-destun cofrestrau'r Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r broses lywodraethu yn galluogi i risg gael ei neilltuo i'r person(au) neu'r adran(nau) priodol ar gyfer ei lliniaru, ei rheoli a gweithredu arni.

Mae trefniadau sicrwydd corfforaethol yn ymgorffori'r tair llinell amddiffyn.

<u>Yr amddiffyniad cyntaf (swyddogaethau sy'n berchen ar risgiau ac yn eu rheoli)</u>
Caiff ei ffurfio gan reolwyr a staff sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risg fel rhan o'u hatebolrwydd i gyflawni amcanion. Gyda'i gilydd, dylent feddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r awdurdod angenrheidiol i weithredu'r polisïau a'r gweithdrefnau rheoli risg perthnasol. Mae hyn yn gofyn am ddealltwriaeth o'r cwmni, ei amcanion, yr amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, a'r risgiau y mae'n eu hwynebu.

<u>Yr ail amddiffyniad (swyddogaethau sy'n goruchwylio neu sy'n arbenigo mewn cydymffurfio neu reoli risg)</u>
Mae'n darparu'r polisïau, y fframweithiau, yr offer, y technegau a'r cymorth i alluogi i risg a chydymffurfiaeth gael eu rheoli yn yr amddiffyniad cyntaf. Mae hefyd yn monitro er mwyn barnu pa mor effeithiol yw'r gwaith hwnnw, ac yn helpu i sicrhau cysondeb o ran diffiniadau a mesuriad risg. Yn cynnwys Gwybodaeth Reoli a threfniadau rheoli perfformiad.

<u>Y trydydd amddiffyniad (swyddogaethau sy'n darparu sicrwydd annibynnol)</u>
Fe'i darperir gan weithgarwch archwilio mewnol ac arolygiad annibynnol. Nid yw'r trydydd amddiffyniad yn rhan o brosesau rheoli risg y ddau amddiffyniad cyntaf, a'i brif rolau yw sicrhau bod y ddau amddiffyniad cyntaf yn gweithredu'n effeithiol, yn ogystal â chynghori ar sut y gellid eu gwella. Yn gweithio o dan gyfarwyddyd y bwrdd / pwyllgor archwilio ac yn adrodd yn ôl iddo, mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y gwaith llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ar ran corff llywodraethu ac uwch reolwyr y sefydliad. Gall hefyd ddarparu sicrwydd i reoleiddwyr sector ac archwilwyr allanol bod rheolaethau a phrosesau priodol ar waith a'u bod yn gweithredu'n effeithiol.

Caiff risgiau gwybodaeth eu diffinio fel bygythiadau i gyfrinachedd: sicrhau mai dim ond personau awdurdodedig a all gyrchu neu dderbyn gwybodaeth; Dilysrwydd: sicrhau bod yr wybodaeth yn ddilys, yn gywir ac yn gyflawn; ac argaeledd: sicrhau y gall personau awdurdodedig gael mynediad ato pan fo angen ar yr adeg gywir ac yn y ffordd gywir.

Mae risgiau Rheoli Gwybodaeth yn cael eu hadrodd a'u rheoli trwy'r Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth. O bryd i'w gilydd bydd risgiau'n cael eu huwchgyfeirio i'w hystyried ar y gofrestr Risg Gorfforaethol gan Gadeirydd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth. Mae Polisi Risg Rheoli Gwybodaeth ar waith.

Adroddwyd ar yr adolygiad blynyddol o risg corfforaethol ym mis Mawrth 2023 yn dilyn adolygiad o'r broses, y ffurflenni a'r gofrestr rheoli risg a gwnaed gwelliannau i gynnwys newidiadau i'r broses i ddileu dyblygu ac alinio adrodd a rheoli risg i strwythur llywodraethu'r heddlu. Roedd yr argymhellion yn cynnwys cynnal adolygiad blynyddol o'r datganiad archwaeth risg i'w gymeradwyo gan y Cyd-Fwrdd Llywodraethu Corfforaethol.

Bu rheoli risg yn destun archwiliad mewnol ym mis Awst 2022 gyda chanlyniad yr archwiliad yn rhoi sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Roedd y prif risgiau a oedd yn parhau i fod heb eu datrys/cofrestru ar ddiwedd cyfnod adrodd 2022/23 yn cynnwys:

- Gofynion uwchraddio teledu cylch cyfyng dalfeydd oherwydd methiannau yn y system a storio
- Larymau affräe yn y ddalfa oherwydd oedi yn y system wrth hysbysu Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu am larymau affräe yn canu yn y ddalfa
- Methiant cynhwysedd Gweinydd yr Uned Fforensig Ddigidol i gydymffurfio â safonau ISO17025 ar gyfer gwneud copïau wrth gefn o ddata
- Tocsicoleg (Tocsicoleg Traffig Ffyrdd) oherwydd risgiau sy'n gysylltiedig â darpariaeth tocsicoleg genedlaethol
- Fformiwla Ariannu'r Heddlu oherwydd gostyngiadau mewn cyllid grant cenedlaethol yn deillio o adolygiad y llywodraeth o'r fformiwla ariannu
- Methiant injan BMW N7 oherwydd materion cadernid yn dilyn ailosod prif beryn BMW ar injanau N57 gyda'r potensial i arwain at fethiant trychinebus yn yr injan
- Swyddogion Crwneriaid oherwydd diffyg gwytnwch adnoddau a newidiadau i ddeddfwriaeth
- Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol (HCP) yn y ddalfa oherwydd methiant i fodloni darpariaeth nyrs y ddalfa sy'n cefnogi lles carcharorion
- Rheoli Eiddo/Arddangosyn yn dilyn argymhellion gan yr archwiliad mewnol mewn perthynas ag eiddo a gedwir
- Gan Bwyll oherwydd diffygion mewn incwm a phroblemau gyda chostau gweithredu yn arwain at ansefydlogrwydd ariannol
- Maes Tanio Arfau Saethu ar y Cyd yn dilyn costau cynyddol sy'n cael effaith sylweddol ar gyllideb yr heddlu
- Cofnodi Troseddau a Chymhwyso Canlyniadau o ganlyniad i newidiadau yn strwythurau sefydliadau, modelau gweithredu, a newidiadau cenedlaethol

Risg neu risg a ryddhawyd yn cael ei adolygu yn ystod y cyfnod hwn:

- Argyfwng Costau Byw (Effaith ar Blismona Gweithredol)
- Argyfwng Costau Byw (Effaith ar Staff)
- Gwasanaethau a Gomisiynir Goleudy
- Deddf Cam-drin Domestig (Effaith ar Alw)
- Gweithredu Diwydiannol
- Adnoddau'r Heddlu (Risg a Pharhad Busnes)
- Defnydd Sefydliadol o Adnabod Rhifau Cerbydau'n Awtomatig (ANPR)
- Cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch
- Datgelu (newidiadau system)
- Adnoddau (Uned Rheoli Adnoddau (RMU))
- GUCCI (Rhyngwyneb Gorchymyn a Rheoli Diweddaru Gazetter, NFLMS/Storm)
- Cofnodi Troseddau yn y Ffynhonnell yn Aneffeithiol
- Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (Cadw staff medrus ar gyfer Airwaves)

Roedd yr adroddiad ar yr argyfwng costau byw disgwyliedig mewn dwy ran yn ymwneud â chynnydd posibl mewn trosedd yn effeithio ar alw'r heddlu oherwydd cythrwfl economaidd, a'r effaith bosibl ar staff a'u gallu i dalu costau byw ychwanegol yn nodi effaith fach. Cafodd y pryderon cysylltiedig ynghylch Gweithredu Diwydiannol a'r galw ar blismona eu rheoli a'u monitro drwy'r Grŵp Monitro Tensiwn.

Roedd Gwasanaethau a Gomisiynir Goleudy yn ymwneud â chydymffurfio ag amserlenni contract o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr a chydymffurfiaeth Cod Ymarfer Dioddefwyr a liniarwyd trwy adolygiadau a gwelliannau proses. Rheolwyd yr estyniad i'r diffiniad o Gam-drin Domestig trwy brosiect asesiad risg cam-drin domestig DASH heb unrhyw effaith sylweddol ar y cyfnod adrodd hwn.

Rheolwyd risgiau yn adnoddau'r heddlu trwy Raglen Adolygu'r Heddlu ar draws nifer o feysydd busnes trwy gydol y cyfnod adrodd hwn. Roedd cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch yn ymwneud i ddechrau â nifer y staff a hyfforddwyd gan y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH) a ddiwygiwyd ar ôl i'r Coleg Plismona roi'r gorau i hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ac mae'n parhau i gael ei fonitro.

Roedd datgeliad yn ymwneud â wasanaethau a cheisiadau testun am wybodaeth a oedd wedi'u lliniaru trwy ddatrysiad TG a newid yn y broses. Mae oedi sy'n effeithio'n genedlaethol ar weithredu'r Rhyngwyneb Gorchymyn a Rheoli gyda'r System Rheoli Trwyddedu Arfau Saethu Cenedlaethol a Storm yn cael eu rheoli.

Rheolwyd y broses o gofnodi troseddau'n aneffeithiol yn y ffynhonnell yn dilyn achos carlam o bryder gan HMICFRS drwy'r prosiect End-2-End, Cynllun Cywirdeb Data Troseddau ar lefel yr Heddlu a gweithgareddau archwilio newydd i gyrraedd a chynnal cyfradd darged o 95%.

Mae gofynion Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN) yn parhau i gael eu monitro. Cododd oedi cenedlaethol wrth weithredu'r rhwydwaith bryderon ynghylch cadw staff medrus ar gyfer Airwaves ond ni ddaeth i'r amlwg.

Adroddir ar bob risg i Fwrdd Gweithredol yr Heddlu, y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol a'r Bwrdd Newid a Thrawsnewid a chraffir ar bob risg drwy'r Cydbwyllgor Archwilio [annibynnol].

Mae risg, sganio'r gorwel, polisi ac archwilio ac arolygu yn eitemau sefydlog ar agenda pob Bwrdd Strategol. Mae adroddiadau pwrpasol (dan gyfarwyddyd) yn cael eu paratoi a'u cyflwyno i fyrddau. Mae adrodd ar risg yn eitem sefydlog ar adroddiadau diweddaru a gyflwynir i fyrddau.

Mae trefniadau llywodraethu yn cefnogi'r gwaith o fonitro perfformiad a rheolaeth ariannol amserol wedi'i dargedu ar lefelau amrywiol o'r sefydliadau. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol, mae’r Comisiynydd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yn gyhoeddus am berfformiad yr heddlu yng nghyfarfod chwarterol y Bwrdd Atebolrwydd Plismona, ble bydd yn herio yn adeiladol ac yn annog dadl ar berfformiad gweithredol.

Mae trefniadau interim y Bwrdd Perfformiad a gyflwynwyd gan y Prif Gwnstabl yn 2022 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r adolygiad yn ystyried y newidiadau newydd i adrodd ar berfformiad trwy gyflwyno offer PowerBI (Business Intelligence) ac Azure i greu pecynnau perfformiad sy'n fwy hygyrch ac yn haws eu dadansoddi, gan greu adroddiadau mwy amserol.

Mae'r trefniant interim o fwrdd perfformiad misol yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio blaenoriaethau a pherfformiad strategol yr Heddlu sy'n galluogi uwch arweinwyr i weithio gyda'i gilydd i wella materion a datrys problemau a nodir ar y cyd yn barhaus drwy lens model gweithredu. Mae hyn wedi galluogi'r Heddlu i adolygu'n fanwl y bobl, y prosesau, y technolegau a'r elfennau hanfodol eraill er mwyn llywio penderfyniadau strategol wrth symud ymlaen.

Yn ogystal â gwella a datblygu gofynion adrodd perfformiad yr Heddlu ei hunan, mae'r newidiadau hyn yn cefnogi'r Mesurau Troseddau a Phlismona Cenedlaethol sydd wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ymdrech ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, gan ganiatáu i berfformiad gael ei fesur a helpu i ddangos gwerth am arian mewn plismona.

Mae perfformiad yr Heddlu yn cynnwys cyfuniad o ffactorau a fydd hefyd yn llywio ailstrwythuro fel rhan o Raglen Adolygu'r Heddlu.

**7. Rhoi arferion da ar waith mewn perthynas ag adrodd ac archwilio tryloywder er mwyn sicrhau atebolrwydd effeithiol**

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhai sy’n gwneud penderfyniadau sy’n ymwneud â darparu gwasanaethau yn atebol iddynt drwy’r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn y ddau sefydliad. Mae'r ddwy wefan yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn unol â deddfwriaeth.

Mae gweithgarwch arolygol ac archwiliol gan gyrff craffu allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru ac HMICFRS yn parhau i ysgogi gwelliant busnes. Caiff argymhellion eu hystyried yn ofalus gan reolwyr a'u rhoi ar waith lle bo'n briodol, a goruchwylir yr holl gamau gweithredu gan grwpiau llywodraethu perthnasol. Caiff adroddiadau HMICFRS eu monitro trwy gynnal cyfarfodydd ag arweinwyr busnes. Mae hyn wedi arwain at HMICFRS yn cyhoeddi nifer sylweddol o feysydd i'w gwella ac argymhellion.

Mae'r Heddlu wedi cael gradd Dda gan HMICFRS[2] (cyhoeddwyd 2022) am atal trosedd, ymateb i'r cyhoedd, amddiffyn pobl fregus, a datblygu gweithle cadarnhaol. Digonol ar gyfer ymchwilio i droseddau, cefnogi dioddefwyr, cofnodi data am droseddau, rheoli troseddwyr, tarfu ar droseddau difrifol a threfniadol a defnydd da o adnoddau.

Canfu'r Arolygiaeth fod y systemau TG wedi'u diweddaru yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu yn cyfrannu at welliannau i'r modd y mae'n cofnodi pob trosedd a adroddwyd.

Mae'r Heddlu'n cynnal dull effeithiol o ddatrys problemau, gan weithio gydag asiantaethau sector cyhoeddus eraill sy'n canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac amddiffyn pobl fregus, gyda threfniadau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl fregus.

Mae'r Heddlu yn rhoi ystod dda o gymorth llesiant i'w weithlu, gan gymryd camau i sicrhau bod y gweithlu'n fwy cynrychioliadol o'i gymunedau.

Mae gan yr Heddlu ddealltwriaeth effeithiol o'r galw ym mhob maes, gan wneud yn siŵr bod ganddo'r capasiti a'r gallu i reoli'r galw presennol ac yn y dyfodol yn y modd mwyaf effeithlon.

Mae angen i'r Heddlu wella sut mae'n craffu ar stopio a chwilio a defnyddio grym, yn benodol ystyried y data a dadansoddiad i ddeall yn llawn a yw'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio'n deg ac yn effeithiol.

Er bod ymchwiliadau yn effeithiol ac yn amserol ac yn cael eu cynnal gyda goruchwyliaeth briodol tynnodd yr Arolygiaeth sylw at yr angen i wella sut y cynhelir ymchwiliadau i stelcian ac aflonyddu.

Ymgymerodd yr Heddlu â diwydrwydd dyladwy i gynnwys opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn y dyfodol y cyfnod hwn. Comisiynwyd CIPFA i gynnal asesiad o swyddogaeth Archwilio Mewnol yr Heddlu. Wrth adrodd ym mis Hydref 2022, codwyd rhai pryderon ynghylch cynllunio archwiliadau a sut y dewiswyd themâu archwilio ond ystyriwyd bod archwilio mewnol yn gyffredinol yn adnodd pwysig sy'n cefnogi llywodraethu da yn yr Heddlu. Gwnaed nifer fach o argymhellion i wella'r broses gan gynnwys:

- Sesiynau briffio ôl-archwiliad i gryfhau'r broses
- Angen gwell cyfathrebu i wella dealltwriaeth o'r broses archwilio mewnol
- Rhanddeiliaid allweddol i'w cynnwys mewn cyfarfodydd cwmpas archwilio mewnol cychwynnol

Mae Grŵp Llywodraethu Archwilio'r Heddlu yn cyfarfod bob chwarter i adolygu adroddiadau Archwilio Mewnol a chynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion ac i gytuno ar weithgareddau a chynlluniau archwilio ac mae'n sicrhau bod arweinwyr busnes yn atebol am gamau gweithredu, gan sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud, bod risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli a'u hystyried o ran rhaglenni archwilio mewnol pellach. Gofynnir am gyfraniad gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a'r Cydbwyllgor Archwilio wrth gwblhau'r rhaglen.

Ar hyn o bryd, mae'r swyddogaeth archwilio mewnol wedi'i chontractio i asiantaeth allanol, sy'n cadw annibyniaeth weithredol. Roedd y rhaglen ar gyfer y flwyddyn 2022/23 yn cynnwys 23 o

[2] PEEL 2021/22: Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu – Arolygiad o Heddlu Dyfed-Powys (justiceinspectorates.gov.uk)

archwiliadau. Ar hyn o bryd mae pob heddlu yng Nghymru yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio gydweithredol sy'n darparu budd economaidd a chyfle ar gyfer dysgu ar y cyd, gan gynnwys nodi arferion gorau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 11 o'r 23 archwiliad ar y cyd.

Mae Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yr Heddlu yn cyfarfod bob chwarter i ystyried digonolrwydd trefniadau llywodraethu o fewn yr heddlu. Mae'r grŵp yn goruchwylio'r datganiad llywodraethu blynyddol ac yn monitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau blynyddol.

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn darparu cyngor ar y rhaglen flynyddol o archwiliadau mewnol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canfyddiadau allweddol yr holl weithgarwch a chanlyniadau archwilio, gydag argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau y gweithredwyd arnynt ac yr adroddir arnynt i'r Pwyllgor. Mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cymryd rhan mewn Rhaglen Archwilio Fewnol ar y Cyd bob blwyddyn.

Arweiniodd 9 archwiliad at sicrwydd sylweddol, 7 sicrwydd rhesymol, 2 sicrwydd cynghorol a 2 at sicrwydd cyfyngedig a chafodd 3 eu gohirio tan 2023/24. Gyda'i gilydd, derbyniodd yr archwiliadau terfynol hyn 52 o argymhellion, a bydd eu gweithredu yn cael ei fonitro gan y Grŵp Llywodraethu Archwiliadau a'i adrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Mae angen craffu ychwanegol ar feysydd sy'n denu Sicrwydd Cyfyngedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i Benaethiaid Gwasanaeth fynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio i roi mwy o gyd-destun ac i ymateb i gwestiynau.

Cytunodd y Pwyllgor Archwilio ar gynllun 2022/23 ar 23 Mawrth 2022.

## 8. Adolygu a Gwerthuso Trefniadau Llywodraethu

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, gan gynnwys y system rheoli mewnol.

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, uwch reolwyr o fewn y sefydliadau sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol a gan sylwadau a wnaed gan yr archwilydd allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill.

Y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol sy'n bennaf gyfrifol am adolygu'r gwaith llywodraethu, gyda chamau gweithredu'n cael eu hadolygu gan y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio yn aelod o'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gasglu tystiolaeth ac asesu cynnydd yn erbyn matrics o dystiolaeth a luniwyd i ddangos cydymffurfiaeth y Gwasanaethau Plismona â'r Egwyddorion Craidd. Y matrics hwn sy'n ffurfio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Ym mis Mai 2023, cyfarfu’r Grŵp Llywodraethu Corfforaethol i adolygu trefniadau llywodraethu, ac yn ystod y cyfarfod rhoddwyd cydnabyddiaeth i’r cynnydd sylweddol y mae’r heddlu wedi’i

wneud yn erbyn y meysydd i'w gwella a'r argymhellion sy'n deillio o weithgarwch Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, yn ogystal â'r ddarpariaeth barhaus o blismona o safon uchel.

Nododd y Grŵp nifer o feysydd i'w gwella mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a gaiff eu hadlewyrchu yn y matrics tystiolaeth yn ogystal â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, sydd wedi'u nodi fel camau gweithredu ar gyfer 2023/24.

Yn unol â'r rheoliadau, mae'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ar ôl nodi cyngor y Cydbwyllgor Archwilio, wedi adolygu effeithiolrwydd eu gwasanaeth archwilio mewnol. Mae'r gwasanaeth wedi cydymffurfio â holl Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Prif ddiben Archwiliadau Mewnol yw darparu sicrwydd i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl bod rheolaethau effeithiol ar waith i reoli risgiau. I'r perwyl hwn, mae'r archwilydd mewnol yn rhoi barn flynyddol ar effeithiolrwydd y rheolaethau a adolygwyd gan y tîm archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Mae'r farn flynyddol hon, a nodir yn adroddiad blynyddol yr Archwilydd Mewnol, ymhlith y ffynonellau tystiolaeth allweddol sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

*"Rwy'n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl.*

*Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad eu hamcanion.*

*Mae'r farn hon yn seiliedig ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn ar hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i fodloni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i* Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys eu sicrhau gan eu gwahanol ffynonellau sicrwydd."

BARN FLYNYDDOL ARCHWILIO CYMRU

Mewn perthynas â chyfrifon 2021/22, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru erbyn diwedd mis Mai 2022, nodwyd nifer o broblemau yn ystod y broses archwilio statudol mewn perthynas â'r prisiad asedau a gynhelir bob pum mlynedd. Ar ôl trafodaeth helaeth, adolygiad ac ystyriaeth ddyledus gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys y Cydbwyllgor Archwilio, cafodd prisiad annibynnol pellach ei gaffael drwy broses gystadleuol. Ar ôl cwblhau'r diwydrwydd dyladwy priodol ar gyfer y prisiadau newydd, a dderbyniwyd ddiwedd mis Tachwedd, diweddarwyd y Datganiad o Gyfrifon a'i gyflwyno i Archwilio Cymru ddiwedd mis Ionawr 2023. Daeth yr archwiliad statudol i ben ym mis Gorffennaf 2023.

Cyflwynodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â chyfrifon 2021/2022, ac roedd yn fodlon bod gan y Comisiynydd

Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon. Cwblhawyd cyfrifon statudol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar ddiwedd Gorffennaf 2023.

Mewn perthynas â Datganiad Cyfrifon 2022/2023. Oherwydd y galwadau a'r terfyn amser archwilio estynedig hysbysedig, roedd effeithiau canlyniadol ar gyfrifon 2022/23. Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i Archwilio Cymru ganol mis Rhagfyr 2023 gyda'r archwiliad statudol yn dechrau ym mis Ionawr 2024.

Darparodd Llywodraeth Cymru fframwaith ar gyfer cwblhau'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2022/23 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifon drafft gael eu paratoi a'u hardystio erbyn 31 Gorffennaf 2023 ac i gyfrifon archwiliedig terfynol gael eu cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2023 ar gyfer pob corff llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 eisoes yn darparu ar gyfer awdurdodau sy'n gorfod oedi cyn paratoi a chyhoeddi eu cyfrifon ariannol blynyddol. Oherwydd rheoliad 10(4), gall awdurdodau gynnwys nodyn ar wefannau i ddweud pam nad ydynt wedi paratoi neu gyhoeddi eu cyfrifon o fewn terfynau amser presennol i gydymffurfio â deddfwriaeth.

## 9. Casgliad a Datganiad Ymrwymiad

Rydym yn fodlon bod yr adroddiad hwn yn sylwebaeth gywir ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Heddlu ac o'u heffeithiolrwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr holl gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd i weithredu a chraffu ar lywodraethu effeithiol yn ystod 2023/24, a bod y meysydd a nodwyd fel rhai sydd angen eu gwella yn cael sylw priodol.

Isod ceir crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u cwblhau neu eu cyflawni, fel y'u rhestrwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019/20, 2020/21 a 2021/22.

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu 19/20** | | |
| 3.2 | Hygyrchedd a thryloywder nifer o brosesau Adnoddau Dynol (AD) | Mae AD wedi trosglwyddo eu holl bolisïau i dempled Polisïau a Gweithdrefnau DPPi2 newydd ac maent ar gael i'r holl staff.<br>Mae amserlen adolygu polisi ar waith ac mae cynnydd yn cael ei olrhain yn y JNCC ar gyfer polisïau sy'n ymwneud â thelerau ac amodau a'r Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg ar gyfer polisïau eraill sy'n ymwneud â phobl sy'n eiddo i Dimau Pobl a Datblygu Sefydliadol.<br>Mae diweddariadau polisi yn broses barhaus ac yn seiliedig ar:<br>▪ Newidiadau mewn deddfwriaeth cyflogaeth<br>▪ anghenion yr Heddlu e.e. Polisïau Recriwtio a Newid yn 2022 wedi'u diweddaru i gefnogi gofynion Adolygu'r Heddlu<br>▪ Gwers a ddysgwyd o gymhwyso polisïau yn ymarferol<br>▪ Ceisiadau am newid o ochr y staff (Unsain/Ffederasiwn) | AR Y GWEILL |
| 3.5 | Dull mwy strwythuredig a chyson o ddysgu o ddatrys problemau, camgymeriadau a gwersi a ddysgwyd. | Sefydlwyd Bwrdd Dysgu'r Gwersi strategol ym mis Hydref 2022. Mae datrysiad dysgu'r gwersi ar-lein newydd wedi'i greu i gefnogi dysgu a gwersi sydd mewn grym. | WEDI'I GWBLHAU |
| 3.6 | Llywodraethu a rheolaeth ariannol ar drefniadau cydweithio. | Mae rheolaeth ariannol trefniadau cydweithio wedi'i hen sefydlu o fewn y system llywodraethu cydweithio rhanbarthol a thrwy Lywodraethu Blynyddol ar y Cyd Ariannol. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 20/21** | | |
| 4.2 | Sefydlu a monitro cynllun adfer er mwyn nodi darpariaeth sefydliadol a gweithredol newydd a gwell o wasanaethau, ac i ddeall y gwersi a ddysgwyd o'n hymateb i bandemig COVID-19. | Mae pob portffolio a maes busnes bellach yn atebol i'r Bwrdd Adfer, Newid a Thrawsnewid, a bydd hyn yn parhau yn dilyn y pandemig. | WEDI'I GWBLHAU |
| 4.4 | Nodi'r broses a ddefnyddir gan yr Adran Gwella Busnes a Rheoli Gwybodaeth i gyflawni ei swyddogaethau archwilio sy'n | Yn dilyn ailstrwythuro, mae cais i gynnal digwyddiadau critigol ar gyfer Rheoli Gwybodaeth ar fin digwydd. Yn dilyn Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi o Gywirdeb Data Troseddau, mae'r heddlu wedi cymryd | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | ceisio gwella cywirdeb data. Pan nodir bylchau yn dilyn arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, gweithgarwch plymio dwfn yr Heddlu a Datganiad Rheoli'r Heddlu, sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro ac y gweithredir arnynt gan ddefnyddio'r mecanweithiau priodol. | nifer o gamau a gwneud gwelliannau i gynnwys cynnydd mewn 4 o adnoddau i mewn i'r Uned Uniondeb Data Troseddu i reoli'r galw. Hyfforddiant newydd ac ychwanegol, gwelliannau i brosesau gan sicrhau cydymffurfiaeth a chywirdeb â'r canllawiau. Ers mis Hydref 2022 mae llwybr cydymffurfiaeth Uniondeb Data Troseddu ar i fyny ac mae hyn yn cael ei fonitro'n barhaus gan y system olrhain gweinyddiaeth achos. | |
| | **Camau Gweithredu 21/22** | | |
| 5.3 | Datblygu Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu sy'n tanategu'r egwyddorion a nodir yn y Gorchymyn Protocol Plismona | Mae'r heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi ymrwymo i'r WASPI (Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru). Mae cytundeb rhannu gwybodaeth ffurfiol yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd yn unol â thempled WASPI cyffredin. | AR Y GWEILL |
| 5.4 | Datblygu egwyddorion Fframwaith Sicrwydd Bwrdd sy'n cefnogi'r gwaith o nodi risgiau llywodraethu corfforaethol, gan hysbysu'r AGS, Datganiad Rheoli'r Heddlu ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig arall. | Roedd Risg yr Heddlu yn destun Archwiliad mewnol yn 2022 a chafwyd sicrwydd sylweddol a dim argymhellion. Mae Fframwaith Risg wedi'i ddatblygu yn yr Heddlu sy'n cael ei gydnabod fel arfer gorau yn genedlaethol. | WEDI'I GWBLHAU |
| 5.6 | Sefydlu a gwreiddio ymagwedd gadarn tuag at Reoli Newid a Rhaglen o fewn yr Heddlu a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan sicrhau bod camau llywodraethu priodol ar waith. | Mae'r newidiadau yn strwythurau llywodraethu'r Heddlu a gyflwynwyd yn 2022 bellach wedi'u hen sefydlu a chawsant eu hadolygu ym mis Chwefror 2023. Mae canllawiau a fframweithiau sy'n cefnogi rheoli prosiectau a rhaglenni wedi'u datblygu i gynnwys Risg, Manteision, Gwelliant Parhaus a Pholisi. Mae'r defnydd o bum methodoleg achos busnes yn cael ei gyflwyno ar gyfer achosion busnes ac mae cyfres o ddogfennau prosiect safonol wedi'u creu yn un llyfr gwaith i gefnogi prosiectau a newid. | WEDI'I GWBLHAU |
| | **Camau Gweithredu 22/23** | | |
| 6.1 | Ymgorffori'r fframwaith llywodraethu newydd a chyfrifoldebau grŵp, gan sicrhau eu bod yn cefnogi gwaith llywodraethu da a rheolaeth sefydliadol effeithiol. | Cynhaliwyd adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a chyflwynwyd adroddiad arno ym mis Mawrth 2023, gyda fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi a'i dosbarthu o fewn yr Heddlu/SCHTh. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.2 | Datblygu a gweithredu Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl, gan sicrhau bod Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl yn cael eu cyflawni. | Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabliaid wedi'i gyhoeddi. Adroddir ar gynnydd y cynllun cyflawni yn y Bwrdd Atebolrwydd Plismona sy'n fforwm cyhoeddus chwarterol. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.3 | Ailstrwythuro Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, gan sicrhau bod adnoddau a phrosesau priodol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni cyfrifoldebau'r | Mae'r ailstrwythuro wedi'i gwblhau, ac mae rolau wedi'u gwreiddio o fewn y sefydliad, gan sicrhau mwy o gefnogaeth i gyflawni cyfrifoldebau'r Comisiynydd yn unol â'i Gynllun Heddlu a Throseddu ac fel yr amlinellir yng Nghynllun Busnes SCHTh. | WEDI'I GWBLHAU |

| | Camau gweithredu | Cynnydd | Statws |
|---|---|---|---|
| | Comisiynydd yn unol â'r cynllun Heddlu a Throseddu. | | |
| 6.4 | Datblygu trefniadau perfformiad yr heddlu i sicrhau perfformiad effeithlon gan adrodd ar bob lefel o fewn yr heddlu | Mae Cyflwyno Niche a chreu Dangosfyrddau PowerBI yn cwblhau'r weithred hon. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.5 | Adolygu'r trefniadau sydd ar waith i ddarparu arolygon statudol ac anstatudol, gan sicrhau bod adborth gan gymunedau lleol yn dylanwadu ar newidiadau mewn darpariaeth gwasanaeth | Yn cael ei adolygu, trefniadau interim ar waith ar ôl COVID-19. | AR Y GWEILL |
| 6.6 | Adolygu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol sydd ar waith ar gyfer y Bartneriaeth GanBwyll | Yn cael ei Adolygu. Toriadau i gyllid a heriau ariannol yn y maes hwn ar hyn o bryd. | AR Y GWEILL |
| 6.7 | Ystyried swyddogaeth Gwasanaethau Corfforaethol y sefydliad a p'un a yw'n cefnogi busnes sefydliadol yn ddigonol. | Cafodd y maes busnes ei adolygu/ailstrwythuro fel rhan o Raglen Adolygu'r Heddlu a rhoddwyd newidiadau ar waith yn 2023. Mae'r swyddogaethau gwasanaethau corfforaethol bellach wedi'u halinio â'r Uned Gwella Gwasanaethau newydd. | WEDI'I GWBLHAU |
| 6.8 | Fel y nodwyd fel rhan o'r hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, datblygu dangosyddion cydnerthedd ariannol a dadansoddiad sensitifrwydd ymhellach mewn perthynas â newidiadau yn y galw am wasanaethau, a fydd yn cael eu hystyried drwy'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig. | Mae'r cam hwn yn destun ystyriaeth barhaus fel rhan o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig. Mae dau gam gweithredu newydd wedi'u cynnwys ar gyfer 2023/24. | WEDI'I GWBLHAU |

Cytunwyd ar y camau gweithredu ychwanegol a ganlyn yn 2023/24 o ganlyniad i'r gwerthusiad blynyddol diweddaraf o drefniadau llywodraethu.

| | Camau Gweithredu 23/24 | | Perchennog/Statws y Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Adolygiad Cylch Cynllunio a Sicrwydd | Mae angen gwelliannau i Gylch Cynllunio a Sicrwydd blynyddol yr Heddlu, i gynnwys alinio perfformiad, y gweithlu, y model gweithredu ac amserlenni Cynllun Ariannol Tymor Canolig a gofynion adrodd. | Uned Gwella Gwasanaeth |
| 7.2 | Adolygiad Fforensig Digidol | Camau i'w cymryd i leihau ôl-groniadau a datblygu proses brysbennu newydd ar gyfer rheoli'r galw | Uned Fforensig Digidol |
| 7.3 | Defnyddio Stopio a Chwilio/Defnyddio Grym | Yn dilyn argymhelliad HMICFRS, gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae'r Heddlu'n craffu ar ddata stopio a chwilio a'r defnydd o rym. | Gweithrediadau |
| 7.4 | Cam-drin Domestig/Stelcian ac Aflonyddu (DASH) | Yn dilyn argymhellion HMICFRS, gwneud gwelliannau i ymateb yr Heddlu i DASH drwy'r canlynol: | Diogelu'r Cyhoedd/CID |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ▪ Gwella'r ymateb o'r cyswllt cychwynnol i'r cam cwblhau<br>▪ Diogelu prosesau at y i wella gwasanaethau i ddioddefwyr yn barhaus<br>▪ Datblygu hyfforddiant newydd a gwella gwybodaeth | |
| 7.5 | Archwiliad Mewnol | Yr heddlu i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy i gynnwys opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn y dyfodol. | Prif Swyddog Cyllid/ Cyfarwyddwr Cyllid |
| 7.6 | Cydymffurfiaeth Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA – Cadernid Ariannol | Gwneud gwaith pellach ar Asesiad Cadernid Ariannol i gynnwys cynllunio senarios ac ystyried mesurau lliniaru | Prif Swyddog Cyllid/ Cyfarwyddwr Cyllid |
| 7.7 | Cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA – Arfarnu opsiynau | Gwneud gwaith pellach ar sicrhau gwerthusiadau opsiynau, gwireddu buddion, arweiniad, a chyfathrebu gyda chysylltiadau cryfach rhwng y Bwrdd Newid a Thrawsnewid a Chynllun Effeithlonrwydd yr Heddlu | Uned Gwella Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr Cyllid |

**Barn**

Ni all unrhyw ddatganiad o reolaeth fewnol ddarparu sicrwydd llwyr yn erbyn colledion materol; bwriad y datganiad hwn yw darparu sicrwydd rhesymol.

Ar sail yr adolygiad o’r ffynonellau sicrwydd a nodir yn y datganiad hwn, rydym yn fodlon bod gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl drefniadau llywodraethu boddhaol ar waith, gan gynnwys systemau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg sy’n hwyluso ymarferiad effeithiol swyddogaethau.

**Casgliad**

Mae’r adolygiad o drefniadau llywodraethu’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl dros y flwyddyn ddiwethaf wedi nodi nifer o feysydd yn y Gwasanaethau Plismona a fyddai, o’u cyflawni, yn dangos gwell atebolrwydd, tryloywder a threfniadau gweithio effeithiol yn ogystal â chryfhau'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith ymhellach.

Mae’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i broses o wella llywodraethu’n barhaus, a byddant yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r meysydd i’w gwella a nodwyd. Mae’r rhain wedi’u nodi yn y camau gweithredu a restrir uchod, a byddant yn parhau i gael eu monitro drwy gydol 2023/24 gan eu bod yn parhau’n ddilys ac yn peri pryder. Bydd y gwaith o fonitro eu gweithrediad yn rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Dafydd Llywelyn
**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Dr Richard Lewis
**Prif Gwnstabl**

Carys Morgans
**Pennaeth Staff a Swyddog Monitro**

Steve Cockwell
**Dirprwy Brif Gwnstabl**

Beverley Peatling
**Prif Swyddog Cyllid**

Edwin Harries
**Cyfarwyddwr Cyllid**